**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheolau Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Etholiadau ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheolau Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

**10 Chwefror 2026**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1. Mae Rheolau Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026 (“y Rheolau Diwygio”) yn diwygio’r rheolau ar gyfer cynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, sef Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021, y cyfeirir atynt gyda’i gilydd fel “Rheolau 2021”.

2. Cafodd Rheolau 2021 eu hailddrafftio a’u moderneiddio’n llawn yn 2021. Yn sgil newidiadau i bolisi a deddfwriaeth arall, dim ond newidiadau angenrheidiol a thechnegol i Reolau 2021 y mae’r Rheolau Diwygio yn eu gwneud.

3. Mae’r Rheolau Diwygio yn mynd law yn llaw â Gorchymyn Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Eithrio Treuliau Diogelwch) (Diwygio) (Cymru) 2026.

4. Er mwyn sicrhau bod etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn gydnaws â’r newidiadau diweddar a wnaed ar gyfer etholiadau i’r Senedd, mae angen darn o ddeddfwriaeth ar wahân i sicrhau cysondeb ar wariant ymgyrchu. Mae’r newid hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddiwygio paragraff 13A o Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (“Deddf 1983”). Bydd y diwygiad yn sicrhau na fydd ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol, yn rhan o’u treuliau etholiadol, yn gorfod cyfrif am dreuliau rhesymol yr eir iddynt wrth ddarparu ar gyfer eu diogelwch personol a diogelu eu heiddo.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

5. Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

6. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu galluogi i wneud y Rheolau Diwygio o dan adran 36A(1), (2), (3), (4), (5) a (9) o Ddeddf 1983.

7. Mae adran 36A(1) o Ddeddf 1983 yn nodi bod rhaid i etholiadau ar gyfer ethol cynghorwyr dros ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru gael eu cynnal yn unol â’r rheolau a wnaed gan Weinidogion Cymru. Mae adran 36A(2) a (3) yn nodi’r hyn y mae rhaid i’r rheolau hyn ei wneud, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i gynnal pôl pan ymleddir yr etholiad a phennu’r gofynion i fod yn ymgeisydd mewn etholiad ac ati.

8. Mae adran 36A(4) a (5) yn nodi darpariaethau pellach ynglŷn â’r hyn y gall y rheolau ei wneud a sut y mae’r rheolau hyn yn rhyngweithio â deddfwriaeth sy’n bodoli eisoes. Mae hyn yn cynnwys rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, darfodol neu arbed wrth weithredu’r rheolau hyn yn llawn.

9. Mae adran 36A(9) yn nodi bod rhaid i'r rheolau hyn gael eu gwneud drwy offeryn statudol ac y cânt wneud darpariaethau gwahanol at ddibenion gwahanol.

10. Cyflwynir y Rheolau hyn i'w gosod gerbron y Senedd o dan adran 36A(10) o Ddeddf 1983 ac maent yn ddarostyngedig i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

11. Yn unol ag adran 36A(7) o Ddeddf 1983, cyn gwneud y Rheolau hyn, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny yr oeddent yn ystyried eu bod yn briodol.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

12. Effaith fwriadedig y Rheolau Diwygio yw diwygio Rheolau 2021, i ddod â deddfwriaeth ynghylch etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn gydnaws â newidiadau i bolisi a deddfwriaeth arall.

13. Ar hyn o bryd, mae Rheolau 2021 yn cynnwys Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 ("y Rheolau Prif Ardaloedd"), sy'n llywodraethu sut y caiff etholiadau i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru eu cynnal, a Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 ("y Rheolau Cymunedau"), sy'n llywodraethu sut y caiff etholiadau i gynghorau cymuned a thref yng Nghymru eu cynnal. Gyda'i gilydd, mae'r ddau ddarn hyn o ddeddfwriaeth yn darparu sut y dylid cynnal pôl yng Nghymru mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol.

14. Cafodd Rheolau 2021 eu hailddrafftio a'u moderneiddio'n llawn yn 2021. Diwygiwyd y ddwy set o reolau yn 2022, a diweddarwyd y Rheolau Prif Ardaloedd ymhellach yn 2023 i alluogi cynnal etholiadau o dan y system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy pe bai prif gyngor yn mabwysiadu'r system honno.

15. Mae'r prif newidiadau polisi a gyflawnir gan y Rheolau Diwygio yn cynnwys diwygio'r geiriad yn y ffurflenni rhagnodedig sy'n ofynnol o ganlyniad i Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023 ("y Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy") a mân welliannau a nodwyd wrth lunio'r Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Caiff newidiadau pellach a wnaed yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 ("y Gorchymyn Cynnal Etholiadau") hefyd eu hystyried yn y Rheolau Diwygio, megis darpariaethau hygyrchedd.

16. Mae'r newidiadau wedi eu crynhoi fel a ganlyn:

- Gofynion o ran y Gymraeg
- Diweddaru ffurflenni rhagnodedig
- Dyletswydd ynghylch cyfarpar hygyrch
- Disgrifiadau ar y cyd
- Gweithio'n ddigidol
- Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyhoeddus

- Llenwi swyddi sy’n digwydd dod yn wag mewn cynghorau tref a chymuned: cywiriad “rheol chwe mis”
- Cywiriadau a mân ddiwygiadau

*Gofynion o ran y Gymraeg*

17. Ein nod yw annog defnydd cyfartal o’r Gymraeg a’r Saesneg mewn etholiadau ac adlewyrchu hyn yn effeithiol mewn deddfwriaeth drwyddi draw.

18. Mae’r Rheolau Diwygio yn gwneud newidiadau i sicrhau mai dyma’r sefyllfa wrth gynnal etholiadau lleol gan wneud etholiadau Cymreig yn ddwyieithog lle bynnag y bo modd. Maent hefyd yn ceisio sicrhau cysondeb ar draws deddfwriaeth ynghylch etholiadau Cymreig.

19. Mae rheolau 8, 36, 65 a 90 yn diwygio Rheolau 2021 o ran papurau pleidleisio i’w gwneud yn ofynnol cynnwys y geiriau “Wales”, “Welsh”, “Cymru” neu “Cymreig” ar y papur pleidleisio fel rhan o ddisgrifiad pan fo ymgeisydd wedi gofyn iddynt gael eu defnyddio yn ystod y broses enwebu.

20. Mae rheolau 15, 43, 72 a 97 yn disodli’r rheolau yn Rheolau 2021 sy’n nodi’r cwestiynau y gellir eu gofyn i bersonau sy’n bresennol yn yr orsaf bleidleisio er mwyn pleidleisio. Mae’r rheolau hyn wedi eu diwygio i’w gwneud yn glir y gellir gofyn y cwestiynau yn Gymraeg neu yn Saesneg, ac mae’r rheolau diwygiedig yn nodi testun y cwestiynau yn y ddwy iaith.

21. Mae rheolau 20, 21, 48, 49, 77 a 102 yn diwygio Rheolau 2021 o ran datgan canlyniadau’r etholiad i’w gwneud yn ofynnol i’r swyddog canlyniadau roi’r datganiad a darparu’r hysbysiad cyhoeddus o’r canlyniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

*Diweddaru ffurflenni rhagnodedig*

22. Mae Rheolau 2021 yn cynnwys atodiadau gyda’r testun rhagnodedig ar gyfer rhai o’r ffurflenni i’w defnyddio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Yn unol â Rheolau 2021, mae eisoes yn ofynnol i bob ffurflen gael ei darparu yn ddwyieithog. Diwygiodd y Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy y Rheolau Prif Ardaloedd drwy fewnosod adrannau newydd ac atodiadau newydd yn y Rheolau hynny. O ganlyniad, cyflwynodd hyn rywfaint o anghysondeb yn y derminoleg a ddefnyddir yn yr atodiadau.

23. Mae’r Rheolau Diwygio yn ystyried mân newidiadau a gyflwynwyd gan y Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ac yn sicrhau cysondeb, nid yn unig o ran y ffurflenni a ddefnyddir mewn etholiadau lleol, ond maent hefyd yn sicrhau cysondeb â’r ffurflenni a ddefnyddir yn etholiadau i’r Senedd. Mae’r newidiadau a wneir i’r atodiadau i Reolau 2021 yn ymwneud yn bennaf â diweddaru’r geiriad a gynhwysir mewn ffurflenni i’w gwneud yn fwy hygyrch a dealladwy. Er enghraifft, cynnwys y gair ‘pleidleisio’ yn yr ymadrodd ‘blwch pleidleisio’ fel y gall defnyddwyr ddeall cyfarwyddiadau yn haws.

24. Mae newidiadau eraill wedi eu gwneud i’r atodiadau i adlewyrchu diwygiadau a wnaed i’r rheolau sylweddol, ac i egluro rhai elfennau o’r ffurflenni. Er enghraifft, mae’r ffurflenni cydsynio ag enwebiad wedi eu diwygio i ddarparu cyfarwyddiadau cliriach i ymgeiswyr pan fyddant yn llunio’r datganiadau ynghylch aelodaeth o blaid.

25. Mae rheolau 23 i 30, 51 i 58, 79 i 84 a 104 i 109 o’r Rheolau Diwygio yn cynnwys y newidiadau i’r atodiadau i Reolau 2021.

*Dyletswydd ynghylch cyfarpar hygyrch*

26. Gosododd Deddf Etholiadau 2022 ddyletswydd ar Swyddogion Canlyniadau i ddarparu cyfarpar y mae’n rhesymol ei ddarparu i sicrhau ei bod yn haws i bobl anabl bleidleisio. Wrth arfer y swyddogaeth hon, rhaid i swyddogion canlyniadau ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Etholiadol. Cyflwynwyd y newid hwn yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau ar gyfer etholiadau i’r Senedd.

27. Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws pob etholiad yng Nghymru, mae’r Rheolau Diwygio yn gosod y ddyletswydd hon ar Swyddogion Canlyniadau mewn etholiadau llywodraeth leol.

28. Mae rheolau 11, 39, 68 a 93 yn diwygio’r gofynion o ran y cyfarpar y mae rhaid ei ddarparu i gynorthwyo pobl i bleidleisio’n annibynnol.

29. Mae diwygiadau i’r iaith ynghylch anabledd hefyd wedi eu cynnwys yn y Rheolau Diwygio. Mae rheolau 16, 17, 44, 45, 73, 74, 98 a 99 yn cynnwys diwygiadau sy’n disodli’r holl gyfeiriadau at ddallineb gyda chyfeiriadau at amhariad difrifol ar y golwg. Unwaith eto, mae hyn yn sicrhau cysondeb ar draws deddfwriaeth ynghylch etholiadau Cymreig.

*Disgrifiadau ar y cyd*

30. Mae’r Rheolau Diwygio yn cynnwys diwygiadau i sicrhau y caiff ymgeiswyr ddefnyddio disgrifiadau ar y cyd, fel y’u cofrestrwyd â’r Comisiwn Etholiadol.

31. Mae rheolau 4, 32, 61 a 86 yn diwygio Rheolau 2021 o ran papurau enwebu i ganiatáu i ymgeiswyr gynnwys disgrifiad yn eu papurau enwebu sy’n ddisgrifiad ar y cyd sydd wedi ei gofrestru gan fwy nag un blaid wleidyddol gofrestredig.

*Gweithio’n ddigidol*

32. Mae’r Rheolau Diwygio yn cynnwys mân ddiwygiadau i ystyried cofrestrau digidol, ac i sicrhau bod hyn yn gydnaws â gweithdrefnau cyfatebol o ran etholiadau i’r Senedd yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau.

33. Mae rheolau 6, 34, 63 ac 88 yn gwneud diwygiadau i sicrhau y gellir edrych ar bapurau enwebu pan fônt wedi eu danfon yn electronig.

34. Mae rheolau 7, 35, 64 a 89 yn gwneud diwygiadau i sicrhau y gall y personau cymhwysol edrych ar ffurflenni cyfeiriad cartref pan fônt wedi eu danfon yn electronig.

35. Mae rheolau 11, 39, 68 a 93 yn gwneud diwygiadau o ran defnyddio fersiynau electronig o'r cofrestrau etholwyr, y rhestrau pleidleiswyr drwy'r post a phleidleiswyr drwy ddirprwy a'r rhestrau rhifau cyfatebol.

36. Mae rheolau 12, 13, 40, 41, 69, 70, 94 a 95 yn gwneud diwygiadau o ran penodi asiantiaid pôl ac asiantiaid cyfrif er mwyn hwyluso'r defnydd o gyfeiriadau e-bost ar gyfer yr asiantiaid hyn.

*Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyhoeddus*

37. Er mwyn dod â'r rheolau ynghylch etholiadau llywodraeth leol yn gydnaws â'r rheolau ar gyfer etholiadau i'r Senedd, mae rheolau 9, 37, 66 ac 91 yn gwneud diwygiadau o ran defnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyhoeddus at ddibenion cynnal y pôl.

38. Mae'r diwygiadau yn sicrhau nad yw defnyddio ystafell mewn adeilad heb ei feddiannu at y diben hwnnw yn peri bod person yn agored i dalu unrhyw dreth gyngor neu ardrethi annomestig.

*Llenwi swyddi sy'n digwydd dod yn wag mewn cynghorau tref a chymuned: cywiriad "rheol chwe mis"*

39. Ar hyn o bryd, mae Rheolau 2021 yn cynnwys dyddiadau cychwyn gwahanol ar gyfer y cyfnod o chwe mis lle na fyddai swyddi sy'n digwydd dod yn wag mewn prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned yn arwain at is-etholiad.

40. Ar hyn o bryd, mae adrannau 26(3) a 35(2B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972") yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorwyr mewn prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned ymddeol ar y pedwerydd diwrnod ar ôl dyddiad etholiad cyffredin, a bod y cynghorwyr newydd yn dechrau yn eu swyddi ar yr un diwrnod.

41. O ran prif gynghorau, mae adran 89(3) o Ddeddf 1972 yn nodi, pan fo swydd sy'n digwydd dod yn wag yn digwydd o fewn chwe mis cyn y diwrnod y byddai'r cynghorydd y mae ei swydd yn wag wedi ymddeol, dim ond os yw cyfanswm y swyddi gwag nad ydynt wedi eu llenwi yn y cyngor yn fwy na thraean o'r aelodau y caiff etholiad ei gynnal. Mewn amgylchiadau eraill, byddai'r swydd wag yn cael ei llenwi yn yr etholiad cyffredin nesaf.

42. Fodd bynnag, o ran cynghorau tref a chymuned, mae'r rheol chwe mis wedi ei diffinio ychydig yn wahanol yn rheol 5(5) a (12) o Reolau Cymunedau 2021. Mae'r rhain yn defnyddio dyddiad yr etholiad nesaf fel pwynt terfyn y cyfnod o chwe mis.

43. Mae rheol 59 yn cynnwys diwygiad sy'n darparu mai chwe mis olaf cynghorydd cymuned yn y swydd yw'r cyfnod o chwe mis sy'n dod i ben ar y pedwerydd diwrnod ar ôl yr etholiad cyffredin nesaf o gynghorwyr tref a chymuned. Bydd hyn yn dod â'r rheol 'chwe mis' ar gyfer cynghorau tref a chymuned yn gydnaws â phrif gynghorau.

*Cywiriadau a mân ddiwygiadau*

44. Mae'r Rheolau Diwygio yn cynnwys nifer o fân ddiwygiadau drafftio, er enghraifft, i adlewyrchu newidiadau sydd wedi eu rhoi ar waith mewn perthynas ag etholiadau i'r Senedd drwy'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau.

45. Nodir y mân newidiadau hyn isod:

- Eglurhad o bwerau'r swyddog llywyddu mewn gorsaf bleidleisio i ddelio ag aflonyddwch: Mae rheolau 10, 38, 67 a 92 yn gwneud diwygiadau o ran penodi swyddogion llywyddu a chlercod i egluro na chaiff swyddog llywyddu awdurdodi clercod i orchymyn i unrhyw berson gael ei arestio mewn gorsaf bleidleisio. Mae hwn yn newid technegol, er cysondeb â'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau.

- Selio blychau pleidleisio: Mae rheolau 14, 42, 71 ac 96 yn gwneud diwygiadau o ran selio blychau pleidleisio i ddiwygio'r cyfeiriad at sêl y swyddog canlyniadau i gyfeiriad at sêl y swyddog llywyddu.

- Y weithdrefn wrth i'r pôl gau: Mae rheolau 19, 47, 76 a 101 yn gwneud diwygiadau o ran y weithdrefn y mae rhaid ei dilyn wrth i'r pôl gau. Mae'r diwygiadau:
    - yn ailddatgan paragraff (2) o Reolau 2021 fel ei fod yn gliriach i'r darllenydd,
    - yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog canlyniadau hefyd roi mewn pecynnau wedi eu selio, unrhyw bapurau pleidleisio drwy'r post ac unrhyw ddatganiadau pleidleisiau drwy'r post sydd wedi eu dychwelyd i'r orsaf bleidleisio ac nad ydynt wedi eu casglu fel arall yn ystod y dydd, ac
    - yn ymdrin â selio unrhyw gofrestrau a rhestrau electronig a ddefnyddiwyd yn yr orsaf bleidleisio.

- Datgan canlyniadau: Mae rheolau 20, 21, 48, 49, 77 a 102 yn diwygio Rheolau 2021 i alluogi'r swyddog canlyniadau i ddefnyddio unrhyw gyfenwau neu unrhyw enwau blaen ymgeiswyr a ddefnyddir yn gyffredin wrth ddatgan y canlyniadau ac wrth ddarparu'r hysbysiad cyhoeddus o'r canlyniadau hynny, pan fo'r cyfenwau neu'r enwau blaen hynny a ddefnyddir yn gyffredin wedi eu cynnwys ar y datganiad o bersonau a enwebwyd.

- Danfon dogfennau: Mae rheolau 22, 50, 78 a 103 yn diwygio Rheolau 2021 sy'n ymwneud â danfon dogfennau at y swyddog cofrestru ar ôl yr etholiad. Mae'r diwygiadau yn egluro bod y dogfennau hynny i'w danfon yn ddiogel a bod rhaid eu storio'n ddiogel wedi hynny. Mae'r diwygiadau

hefyd yn nodi'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys ar y pecynnau y mae'r dogfennau yn cael eu danfon felly ynddynt.

- Cywiro mân wallau mewn papurau enwebu neu ffurflenni cyfeiriad cartref: Mae rheolau 5, 33, 62 a 87 yn diwygio Rheolau 2021 i alluogi'r swyddog canlyniadau i gywiro mân wallau mewn papurau enwebu a ffurflenni cyfeiriad cartref. Gan nad yw'r papurau enwebu rhagnodedig yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gynnwys eu rhifau etholiadol, mae'r rheolau sy'n galluogi swyddogion canlyniadau i gywiro mân wallau mewn cysylltiad â rhifau etholiadol wedi eu hepgor.

*Dod i rym*

46. Bydd y Rheolau Diwygio yn dod i rym ar 13 Mawrth 2026; fodd bynnag, ni fyddant yn dod i rym tan yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf ar 6 Mai 2027. Bydd unrhyw is-etholiadau a gynhelir cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau 2021 nad ydynt wedi eu diwygio.

47. Mae'r amserlen hon yn golygu y bydd yr is-ddeddfwriaeth hon yn cydymffurfio ag egwyddor Gould, ac yn caniatáu digon o amser i'r Comisiwn Etholiadol a gweinyddwyr etholiadol ddiweddaru gweithdrefnau, canllawiau a ffurflenni perthnasol.

## 5. Ymgynghori

48. Mae adran 36A(7) o Ddeddf 1983 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y maent yn eu hystyried yn briodol cyn gwneud y Rheolau Diwygio.

49. Rhwng 20 Hydref 2025 a 12 Ionawr 2026, cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos o hyd ar y Rheolau Diwygio drafft. Tynnwyd sylw cynulleidfa eang o randdeiliaid etholiadol allweddol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys Swyddogion Canlyniadau, gweinyddwyr etholiadau, y Comisiwn Etholiadol ac awdurdodau lleol.

50. Cafwyd cytundeb eang i holl gynigion yr ymgynghoriad. Nid ystyriwyd bod angen gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r Rheolau drafft.

51. Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: Newidiadau i reolau etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru | LLYW.CYMRU

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### Yr opsiynau

52. Bydd y mwyafrif o'r Rheolau a'r prosesau cysylltiedig yn aros yr un fath ag ar gyfer etholiadau lleol blaenorol yng Nghymru.

**Opsiwn 1 –** Busnes fel yr arfer. Y rheolau presennol sy'n llywodraethu etholiadau lleol, sef Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 fyddai'n llywodraethu'r ffordd y caiff etholiadau lleol eu cynnal yng Nghymru.

**Opsiwn 2 –** Gwneud Rheolau Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026.

### Dadansoddi costau a manteision

### Opsiwn 1 - Busnes fel yr arfer

53. Pe bai Opsiwn 1 yn cael ei ddilyn, byddai'n golygu y byddai'r Rheolau 2021 presennol yn gymwys i etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Ni chaiff Rheolau 2021 eu hystyried bellach yn gwbl addas i'r diben o ganlyniad i newidiadau eraill i bolisi a deddfwriaeth nad yw'r rheolau hynny'n eu hystyried.

54. Mae'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i Reolau 2021 yn bennaf dechnegol eu natur, gan gynnwys geiriad ynghylch hygyrchedd a defnyddio'r Gymraeg i adlewyrchu'r newidiadau yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau a wnaed yn ddiweddar.

55. Pe bai Opsiwn 1 yn cael ei ddilyn, ni fyddai'r rheolau a'r gweithdrefnau sy'n llywodraethu etholiadau yng Nghymru yn gyson â'i gilydd. Byddai hyn yn creu gwahaniaethau o ran hygyrchedd a'r Gymraeg. Mae hyn yn achosi risg o greu dryswch i bleidleiswyr a gweinyddwyr etholiadol.

### Opsiwn 2 – Gwneud Rheolau Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026

### Disgrifiad

56. Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol benodi Swyddog Canlyniadau i gynnal etholiadau ar ei ran. Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol a Chynghorau Tref a Chymuned sy'n gyfrifol am dalu costau cynnal etholiadau lleol. Mae adran 36C(1) o Ddeddf 1983 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau dalu'r holl wariant yr aiff y Swyddog Canlyniadau iddo wrth gynnal etholiad, i'r graddau nad yw hynny, pan fo'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol wedi pennu graddfa, yn mynd uwchlaw'r raddfa honno.

57. O ran costau etholiadau Cynghorau Tref a Chymuned, mae Deddf 1983 hefyd yn rhagnodi o dan adran 36C(2) bod rhaid i'r holl wariant yr aiff swyddog

canlyniadau iddo yn briodol wrth gynnal etholiad ar gyfer ethol cynghorydd cymuned, i’r graddau nad yw hynny, mewn achosion pan fo’r cyngor sir neu’r cyngor bwrdeistref sirol lle mae’r gymuned wedi ei lleoli ynddo wedi pennu graddfa at y dibenion hyn, yn mynd uwchlaw’r raddfa honno, gael ei dalu gan y prif gyngor; ac os yw’r prif gyngor yn gwneud hynny’n ofynnol, rhaid i gyngor cymuned ad-dalu i’r prif gyngor unrhyw wariant yr aed iddo.

58. Mae costau cynnal etholiad yn deillio o orfod talu amrywiaeth o ffioedd, taliadau a threuliau yr eir iddynt wrth dalu staff, costau argraffu hysbysiadau, papurau pleidleisio, ffurflenni pleidleisio drwy’r post ac ati, llogi gorsafoedd pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau. Nid yw’r Rheolau Diwygio yn cynnig unrhyw newidiadau o ran y prosesau arferol o gynnal yr etholiad.

**Costau**

*Y ddyletswydd hygyrchedd*

59. Adlewyrchodd y Gorchymyn Cynnal Etholiadau ar gyfer etholiadau i’r Senedd newidiadau a wnaed i’r rheolau yn ymwneud ag etholiadau Seneddol y DU yn Neddf Etholiadau 2022. Cyflwynodd hyn ofyniad newydd ehangach i Swyddogion Canlyniadau ddarparu unrhyw gyfarpar y mae’n rhesymol ei ddarparu at ddibenion galluogi pobl anabl i bleidleisio’n annibynnol, neu ei gwneud yn haws iddynt wneud hynny, ac mae’n ddarostyngedig i’r anghenion a nodwyd gan bleidleiswyr anabl.

60. Y bwriad oedd y byddai newidiadau a gyflwynwyd ar gyfer etholiadau i’r Senedd drwy’r Gorchymyn Cynnal Etholiadau hefyd yn cael eu gwneud mewn perthynas â Rheolau 2021. Mae’r costau posibl o ran datrysiadau a chyfarpar pleidleisio hygyrch wedi eu nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Gorchymyn Cynnal Etholiadau.

61. Bydd modd defnyddio’r un datrysiadau a chyfarpar pleidleisio hygyrch a ddefnyddir ar gyfer etholiadau i’r Senedd ac etholiadau a gedwir yn ôl ar gyfer etholiadau lywodraeth leol yn 2027. Felly, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, gellir categoreiddio’r costau hyn fel ‘costau suddedig’, gan y byddant yn debygol o fod wedi digwydd eisoes. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol felly i awdurdodau lleol mewn perthynas â’r ddyletswydd hygyrchedd.

62. Fel y nodir uchod, awdurdodau lleol sy’n gyfrifol am dalu costau cynnal etholiadau llywodraeth leol. Os oes angen, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllid pellach ar gael ar gyfer datrysiadau hygyrchedd gwahanol neu amgen.

**Manteision**

63. Bernir y byddai’r darpariaethau a gynhwysir yn y Rheolau Diwygio yn mynd rywfaint o’r ffordd tuag at sicrhau ymhellach fod pobl ag ystod ehangach o

amhariadau yn cael eu cynorthwyo mewn gorsafoedd pleidleisio, gan wella hygyrchedd pleidleisio a diogelu'r hawl ddemocrataidd sylfaenol honno.

64. Mae'r rheolau yn caniatáu mwy o hyblygrwydd drwy beidio â phennu cyfarpar a mesurau, gan sicrhau y bydd y newidiadau'n cwmpasu technoleg a datrysiadau gwell sy'n dod i'r amlwg. Bydd cynnwys darpariaeth i'r Comisiwn Etholiadol ddarparu canllawiau yn sicrhau hefyd bod modd ymgynghori ar y canllawiau a'u diweddaru yn ôl yr angen.

65. Mae'r camau hyn hefyd yn ategu newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol adrodd, yn ei adroddiadau ar etholiadau i'r Senedd ac etholiadau Llywodraeth Leol, ar y camau a gymerwyd gan Swyddogion Canlyniadau mewn etholiadau i gynorthwyo pobl anabl.

66. Un o fanteision y dull gweithredu arfaethedig yw y gellir defnyddio cyfarpar sydd eisoes wedi ei brynu ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau i'r Senedd i gynorthwyo pleidleiswyr anabl mewn etholiadau llywodraeth leol, neu fel arall.

**Yr opsiwn a ffefrir**

67. Byddai Opsiwn 2 yn cynnig amrywiaeth eang o fanteision fel y nodir uchod. Ystyrir bod yr opsiwn hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws etholiadau yng Nghymru, ac i wella darpariaethau hygyrchedd i bleidleiswyr.

**Effeithiau eraill**

68. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig llawn ar effaith y Rheolau Diwygio, a'r Gorchymyn Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Eithrio Treuliau Diogelwch) (Diwygio) (Cymru) 2026 cysylltiedig.

69. Mae adran 1 ac adran 8 o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rheolau Diwygio ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Asesu'r Gystadleuaeth**

70. Ni fydd y darpariaethau yn y Rheolau Diwygio yn effeithio ar fusnesau, nac elusennau a/neu'r sector gwirfoddol mewn ffyrdd sy'n codi materion o ran cystadleuaeth. Ni chymhwyswyd y prawf hidlo'r gystadleuaeth. Ni ddisgwylir i'r darpariaethau yn y Rheolau Diwygio gael unrhyw effaith ar gystadleuaeth na gosod unrhyw gyfyngiadau ar gyflenwyr newydd na chyflenwyr presennol. Disgwylir mai cyrff cyhoeddus, sydd eisoes yn talu'r costau hyn, fydd yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth. Ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth gael unrhyw effaith negyddol ar fentrau bach a chanolig yng Nghymru.